# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Lleoliad:**

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

**Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Mawrth 2016**

**Amser: 09.30**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Llinos Madeley

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru

**Yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror 2016, penderfynodd y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 17.42(vi), i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod cyfan ar 9 Mawrth 2016.**

**1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**

(09.30)

**2 Ymchwiliad dilynol i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: trafod ymateb y Dirprwy Weinidog Iechyd**

(09.30 - 09.45) (Tudalennau 1 - 3)

**3 Etifeddiaeth Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad: trafod yr adroddiad drafft**

(09.45 - 10.45) (Tudalennau 4 - 49)

**4 Papurau i'w nodi**

(10.45)

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2016**

(Tudalennau 50 - 52)

**Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016: gohebiaeth gan y Comisiynydd Pobl Hŷn**

(Tudalennau 53 - 54)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Sesiwn graffu gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru: dilyniant i ymchwiliad y Pwyllgor i ofal preswyl i bobl hŷn ac adolygiad y Comisiynydd o gartrefi gofal: gohebiaeth gan y Comisiynydd**

(Tudalennau 55 - 56)

**Ymchwiliad dilynol i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: ymateb gan y Dirprwy Weinidog Iechyd**

(Tudalennau 57 - 63)

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Lleoliad:**

**Lleoliad Allanol**

**Dyddiad: Dydd Iau, 11 Chwefror 2016**

**Amser: 09.34 - 11.23**

## Ystafell Fideogynadledda, Tŷ Hywel

### Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Alun Davies AC<br>Andrew RT Davies AC<br>John Griffiths AC (Cadeirydd dros dro)<br>Altaf Hussain AC<br>Lynne Neagle AC<br>Gwyn R Price AC<br>Lindsay Whittle AC |
| Tystion: | Chloe Dunnett, Y Swyddfa Gartref<br>Angela Scrutton, Y Swyddfa Gartref<br>Joe Shapiro, Y Swyddfa Gartref<br>Tracey Breheny, Llywodraeth Cymru<br>Dr Rhian Hills, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)<br><br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Amy Clifton (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Oherwydd bod David Rees, Cadeirydd y Pwyllgor wedi anfon ei ymddiheuriadau, gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer ethol Cadeirydd dros dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22. Enwebodd Gwyn Price John Griffiths, ac fe'i etholwyd.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Elin Jones, Darren Millar a Kirsty Williams. Dirprwyodd Andrew RT Davies ar ran Darren Millar.

## 2 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd: briffio ffeithiol ar y Bil Sylweddau Seicoweithredol a datblygiadau perthnasol yr UE

2.1 Rhoddodd swyddogion sesiwn friffio ar y Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol a datblygiadau perthnasol yr UE i'r Aelodau.

## 3 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd: briffio ffeithiol ar gynllun cyflenwi Llywodraeth Cymru 'Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed' - 2016-2018

3.1 Darparodd swyddogion sesiwn friffio ar gynllun cyflenwi Llywodraeth Cymru 'Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed' - 2016-2018 i'r Aelodau.

## 4 Sesiwn graffu gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru: dilyniant i ymchwiliad y Pwyllgor i ofal preswyl i bobl hŷn ac adolygiad y Comisiynydd o gartrefi gofal: trafod y canlyniadau

4.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Weinidog, i'w gopïo i'r Comisiynydd ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, yn amodol ar fân newidiadau.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2016

5.1a Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

### 5.2 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2016-17: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

### 5.3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Mynediad at Driniaethau Meddygol (Arloesi): gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

### 5.4 Ymgynghoriad ar y Mesur Hawliau Prydeinig: gohebiaeth gan Gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol at y Llywydd

5.4a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Eitem 4.2

☎ 029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Chwefror 2016

Annwyl Weinidog,

**Ynghylch: Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**

Rwyf yn hynod falch bod Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol gan fod rheoleiddio ac arolygu materion gofal cymdeithasol yn bwysig i bobl hŷn ac yn cael effaith glir ar ansawdd eu bywydau.

Fel rhan o'm gwaith craffu parhaus ar y Ddeddf ac fel rhan o'm swyddogaeth statudol i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru, rwyf yn edrych ymlaen at gymryd rhan mewn trafodaethau cynnar i ddylanwadu ar y ddeddfwriaeth eilaidd a gaiff ei drafftio i gyd-fynd â'r Ddeddf. Fel rwyf wedi nodi eisoes, roedd y Gofynion ar gyfer Gweithredu a wnaed yn fy Adolygiad i o Gartrefi Gofal wedi'u drafftio mewn ffordd fel bod posib bwrw ymlaen â hwy o dan y ddeddfwriaeth hon. Felly, byddaf eisiau gweld y Gofynion ar gyfer Gweithredu perthnasol yn cael eu hadlewyrchu yn y ddeddfwriaeth eilaidd. Bydd fy swyddfa'n gwneud cais am gyfarfod gyda'r swyddog arweiniol yn y maes hwn, er mwyn sicrhau cydweithio agos, a byddaf yn rhannu fy nghraffu ar y rheoliadau sy'n sail iddi gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nesaf.



Iechyd ar Waith / Health at Work — Cyrraedd y Nod / The Corporate Standard
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Er mwyn sicrhau bod fy ngwaith craffu’n effeithiol, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu rhoi amserlen i mi ar gyfer drafftio'r rheoliadau, gan gynnwys pryd bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal a dyddiad ar gyfer cyhoeddi’r Nodiadau Esboniadol i gyd-fynd â’r Ddeddf. Hefyd, byddaf yn darparu i’r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol amserlen i gadarnhau’r gweithredu sydd ar droed er mwyn bwrw ymlaen â’m Gofynion ar gyfer Gweithredu yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal, gan gynnwys y rhai sydd i’w gweithredu drwy gyfrwng y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,



**Sarah Rochira**

**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Copi i: Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Plant a Theuluoedd

Copi i: David Rees AC, Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru



☎ 08442 64 06 70
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

David Rees AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Chwefror 2016

Annwyl Gadeirydd,

**YNGHYLCH: Gofal Preswyl ar gyfer pobl hŷn**

Diolch i chi am y cyfle i roi diweddariad manwl i'r Pwyllgor ar y gwaith sydd ar droed i fwrw ymlaen â'r Gofynion ar gyfer Gweithredu yn fy Adolygiad i o Gartrefi Gofal. Roedd llawer ohonynt yn adleisio'r rhai a wnaed gan y Pwyllgor yn ei Adolygiad ei hun.

Yn dilyn eich cais am amserlen i fanylu ar y gwaith sydd ar droed, byddaf yn fodlon darparu hyn ym mis Mawrth,  Fel y nodais yn fy sesiwn tystiolaeth, mae'r darn yma o waith yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd, a'i nod yw cadarnhau'r newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith ledled y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn gweithredu'r Gofynion ar gyfer Gweithredu a wnaed yn fy Adolygiad.  Gobeithio y bydd yn profi'n ddefnyddiol o ran darparu strwythur cyffredinol ar gyfer y gweithredu, gan sicrhau bod y cynnydd yn haws ei oruchwylio gan y Pwyllgor a gennyf i.

Hefyd, rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am gyfarfod gyda'r swyddog arweiniol mewn perthynas â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, er mwyn sicrhau bod y Gofynion ar gyfer Gweithredu perthnasol a wnaed yn fy Adolygid i o Gartrefi Gofal yn cael eu hadlewyrchu yn y rheoliadau sy'n sail i'r Ddeddf.  Bydd y gwaith hwn yn cael ei adlewyrchu ar yr amserlen hefyd.



Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod / The Corporate Standard
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Edrychaf ymlaen at ddarparu dadansoddiad o'm gwaith craffu ar y rheoliadau hyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nesaf, yn ychwanegol at gynnal sgyrsiau pellach am sut gellir sicrhau bod ein swyddogaethau craffu perthnasol yn cyd-fynd â'n rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Yn gywir,



**Sarah Rochira**

**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**Vaughan Gething AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd**
**Deputy Minister for Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/VG/0651/16

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Chwefror 2016

Annwyl David

**Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: ymchwiliad dilynol i berfformiad y gwasanaethau ambiwlans**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Ionawr a oedd yn darparu manylion am ymchwiliad dilynol y Pwyllgor i berfformiad y gwasanaethau ambiwlans.

Croesawaf sylwadau cadarnhaol ychwanegol y Pwyllgor a’r gydnabyddiaeth o’r cynnydd nodedig yn dilyn ymchwiliad gwreiddiol a gynhaliwyd yn gynnar yn 2015. Gwelwyd cryn newid gwirioneddol o ran cyflenwi gwasanaethau ambiwlans ers i mi ysgrifennu i’r Pwyllgor ddiwethaf ym mis Mai 2015 ac rwyf yn ddiolchgar am y gydnabyddiaeth o hynny.

Mae’r gydnabyddiaeth hon yn arbennig o bwysig i staff ymroddedig Gwasanaeth Ambiwlans Cymru sydd yn aml wedi bod yn destun beirniadaeth am berfformiad y sefydliad yn erbyn un targed seiliedig ar amser nad yw'n berthnasol erbyn hyn. Roedd yr hen darged yn arwydd bras o ansawdd ac nid oedd tystiolaeth glinigol ar gyfer y categori eang o alwadau yr oedd yn cael ei gymhwyso iddo. Yn hytrach na gwella canlyniadau i gleifion, roedd yr hen darged yn ddefnydd gwael o adnoddau ac nid oedd yn helpu i wella canlyniadau i gleifion.

Mae’n destun balchder i mi ein bod wedi cymryd cam ymlaen ar gyfer cleifion trwy gynnal cynllun peilot ar fodel ymateb clinigol gyda'r bwriad o flaenoriaethu cleifion y mae angen ymyriad clinigol brys arnynt. Bwriad y cynllun peilot yw galluogi clinigwyr ac adnoddau ambiwlans i gael eu dyrannu’n briodol ar sail angen clinigol. Mae hyn wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar gleifion. Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, bu cynnydd pob mis yng nghyfran y cleifion yn y categori ‘bywyd yn y fantol’ (Coch) a gafodd ymateb brys o fewn wyth munud. Mae’n hollbwysig bod y model newydd wedi ei seilio ar y dystiolaeth a chyngor clinigol diweddaraf yn dilyn yr adolygiad gan Dr Brendan Lloyd, Cyfarwyddwr Meddygol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Vaughan.Gething@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Byddai methu ag ymateb wedi bradychu buddion gorau y cleifion.

Yn dilyn cyhoeddiad y Dangosyddion Ansawdd Ambiwlans arloesol am y tro cyntaf ar 27 Ionawr 2016, mae Cymru bellach ymhlith y gwledydd mwyaf tryloyw yn fyd-eang o ran gwybodaeth am wasanaethau ambiwlans. Rydym yn gwybod erbyn hyn, er enghraifft, bod 34 o gleifion a ddioddefodd trawiad ar y galon ym mis Rhagfyr - pan oedd eu calonnau wedi peidio â gweithio a'u bod wedi peidio ag anadlu - wedi eu dadebru cyn cyrraedd yr ysbyty. Mae diddordeb ledled y byd yn y model ymateb clinigol a'r dangosyddion ansawdd ambiwlans a gyflwynir yma. Yn dilyn gweddnewid sylweddol, gan gynnwys trefniadau rheoli ac atebolrwydd trylwyr newydd, rydym bellach ar flaen y gad o ran ail-ddylunio darpariaeth gwasanaeth ambiwlans.

Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud eto. Er enghraifft, mae anghysondeb yn parhau mewn ymatebolrwydd ar lefel leol, ac mae angen i'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlansys Brys (EASC), Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a'u partneriaid weithio ar y cyd i wella'r sefyllfa.

Mae angen bod yn gyflymach wrth alinio'r lefelau galw a ragwelwyd yn gywir â'r capasiti cywir er mwyn galluogi lefel gyson uchel o ymateb. Mae angen lleihau'r oedi hir wrth drosglwyddo cleifion a bydd pwyslais ar hyn wrth wella. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cynnydd yn fanwl ac yn gweithio gydag EASC, WAST a'r holl bartneriaid eraill i alluogi gwelliant parhaus o ran cyflenwi, cynllunio a pherfformiad gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru.

Fodd bynnag, er y bydd newidiadau gweithredol lleol yn helpu ymatebolrwydd, mae mabwysiadu dull system gyfan o gyflenwi gwasanaethau gofal heb eu trefnu sy'n canolbwyntio ar y claf yn bwysicach. Dylai hyn, yn ogystal â helpu i gyflenwi gwasanaethau ambiwlans amserol ac o ansawdd uchel, hefyd yn ehangach wella iechyd a gofal i bawb.

Gan droi at gasgliadau'r Pwyllgor, er rhwyddineb byddaf yn ymateb iddynt yn eu trefn.

**Casgliad 1**

**Data a dangosyddion perfformiad**

**Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith y cyrhaeddwyd y targed Cymru gyfan ar gyfer amseroedd ymateb brys ym mis cyntaf y model treialu newydd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod amrywiadau rhanbarthol sylweddol yn parhau a hoffai weld y rhain yn cael eu trin fel mater o flaenoriaeth. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn disgwyl gweld cynnydd parhaus mewn perthynas ag amseroedd ymateb ar lefel leol a chenedlaethol.**

**Mae cyhoeddi data am berfformiad gwasanaethau ambiwlans yn gywir ac yn brydlon yn allweddol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n dryloyw ac yn atebol. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai cyhoeddi'r dangosyddion ansawdd ambiwlans bob chwarter gael effaith andwyol ar hyn. Ar ben hynny, roedd yn siomedig o glywed, er bod y data amseroedd ymateb targed a rannwyd yn ôl awdurdod lleol wedi cael eu casglu, na chyhoeddwyd y wybodaeth hon yn ystod mis cyntaf y cyfnod treialu.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod WAST, EASC a Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyhoeddi cyfres fwy cynhwysfawr o ddata bob mis, gan gynnwys perfformiad yn erbyn targedau amseroedd ymateb yn ôl ardal awdurdod lleol, ac yn ategu'r trefniadau cyhoeddi data sydd eisoes ar waith. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r data mwy cynhwysfawr hyn fod ar gael fel mater o drefn o 1 Ebrill 2016.**

**Wedi ei dderbyn yn rhannol**

Disgwyliad Llywodraeth Cymru yw bod o leiaf 65% o gleifion yn y categori ‘bywyd yn y fantol’ (Coch) ymhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol, yn derbyn ymateb brys o fewn wyth munud bob mis. Mae’n galonogol nodi lefelau uchel o berfformiad yn y rhan fwyaf o ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol ers dechrau’r cynllun peilot ar y model ymateb clinigol ar 1 Hydref 2015, gydag amseroedd ymateb misol cyfartalog yn llai na phum munud mewn rhai ardaloedd.

Rydym ni hefyd yn disgwyl y bydd holl drigolion Cymru sydd angen mynediad brys at ymyriad clinigol yn cael ymateb amserol, ni waeth ymhle y maent yn byw, ac y bydd yr adnoddau clinigol cywir yn eu cyrraedd ar sail eu hangen clinigol. Mae WAST yn adolygu pob galwad Coch nad yw’n derbyn ymateb o fewn wyth munud er mwyn dysgu gwersi yn lleol ac yn genedlaethol ac i ddeall pa un a wnaeth amseroldeb yr ymateb effeithio ar y canlyniad i’r claf.

Er gwaethaf ei natur wledig, roeddem yn siomedig na wnaeth ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda gyrraedd y targed o 65% yn nhri mis cyntaf y cynllun peilot. Gweithredodd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlansys Brys yn gyflym ar ôl mis cyntaf y cynllun peilot, gan gomisiynu cynllun gwella ar gyfer ardal Hywel Dda. Arweiniodd hyn at welliannau pob mis rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr ac rydym yn disgwyl gweld gwelliant parhaus wrth i WAST ac EASC fel ei gilydd ddysgu rhagor wrth i’r cynllun barhau.

Mae perfformiad yn ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol Cwm Taf a Phowys hefyd wedi methu â chyrraedd y lefel ofynnol ar adegau yn ystod tri mis cyntaf y cynllun peilot. Mae heriau rhesymegol cyffredin wrth ymateb i gleifion o fewn wyth munud yn y ddwy ardal, a’r mwyaf amlwg o’r rhain yw materion yn ymwneud â’r rhwydwaith ffordd yn ardaloedd y cymoedd a natur wasgaredig y boblogaeth ym Mhowys, sy’n ei gwneud yn anodd rhagweld pwyslais y galw. Rydym yn disgwyl i WAST atgyfnerthu arferion gweithredol a’r berthynas ag ymatebwyr brys cymunedol a chyd-ymatebwyr y gwasanaethau tân ac achub yn yr ardaloedd hyn, ac i weithio gyda phartneriaid i nodi lleoliadau lle y bydd Diffibrilwyr Cyhoeddus yn fwyaf buddiol i gleifion.

Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd trwy ymgysylltu’n rheolaidd â Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans a WAST.

Gan droi at argymhelliad y Pwyllgor i gyhoeddi data ar amseroedd ymateb, roeddwn i’n glir iawn y byddai cyhoeddiad chwarterol y dangosyddion ansawdd ambiwlans yn cyd-fynd â chyhoeddiad misol yr amseroedd ymateb ‘Coch’, a byddai hyn, ynghyd â’r wybodaeth a gyhoeddir am alw, yn rhoi gwasanaethau ambiwlans Cymru ymhlith y mwyaf tryloyw yn y byd. Mewn cyferbyniad â hyn, adroddir ar ymatebolrwydd cenedlaethol yn flynyddol yn yr Alban trwy gyhoeddi papurau bwrdd Gwasanaethau Ambiwlans yr Alban, a defnyddir dull tebyg ar gyfer perfformiad cenedlaethol yng Ngogledd Iwerddon. Cyhoeddir gwybodaeth am berfformiad yn fisol yn Lloegr ond nid yw mor fanwl â’r wybodaeth a gyhoeddir yng Nghymru, ac nid yw’n cyfeirio at ymatebolrwydd ar lefel awdurdod lleol.

Yn dilyn cyngor gan EASC a WAST, gallaf gadarnhau nad yw’n bosibl i goladu a chyhoeddi’r dangosyddion ansawdd ambiwlans yn fisol. Yn ogystal, bwriad cyhoeddi’r data hwn yn chwarterol yw amlygu tueddiadau ystadegol dros gyfnod hirach - o leiaf am hyd y cynllun peilot - i gefnogi’r broses o wneud penderfyniadau gweithredol. Gwnes i’r pwyntiau hyn yn eithaf clir pan gyhoeddais y cynllun peilot ar y model ymateb clinigol.

Gellir adolygu trefniadau cyhoeddi ar ddiwedd y cyfnod peilot 12 mis ac ar ôl cwblhau'r gwerthusiad annibynnol. Bydd hyn yn llywio penderfyniad ar ba un a ddylid rhoi'r model ymateb clinigol ar waith yn y tymor hirach.

**Casgliad 2**

**Atebolrwydd ac ymgysylltu**

**Mae llwybrau cliriach i gleifion yn elfen allweddol yn y gwaith sy'n cael ei wneud i wella perfformiad gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru. Dylid parhau i wella'r gwaith ymgysylltu rhwng y byrddau iechyd a WAST, sy'n cael ei hwyluso gan EASC, a dylid cynnwys awdurdodau lleol a phartneriaid eraill lle y bo'n briodol.**

**Nid oedd atebolrwydd yn codi yn yr un modd ag y gwnaeth yn yr ymchwiliad gwreiddiol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu hyn, ond serch hynny mae'n annog Llywodraeth Cymru, WAST, EASC a'r byrddau iechyd i gadw llygad barcud ar y maes hwn i sicrhau bod cynnydd yn cael ei gynnal.**

**<u>Wedi ei dderbyn</u>**

Mae'n bleser gennyf nodi sylwadau cadarnhaol y Pwyllgor ar y newidiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud o ran atebolrwydd a threfniadau llywodraethu. Dyma un o argymhellion allweddol Adolygiad McClelland ac mae wedi cymryd amser i'w sefydlu yn dilyn newidiadau deddfwriaethol a wnaed i greu Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys a swydd y Comisiynydd ym mis Ebrill 2014.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i roi cydnabyddiaeth i'r Athro McClelland, yn ei swydd fel Cadeirydd EASC, ac i Stephen Harrhy, Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans, am lunio'r trefniadau comisiynu cydweithredol sydd wedi darparu eglurdeb gwirioneddol a chwmpas i wella darpariaeth y gwasanaethau ambiwlans brys.

**Casgliad 3**

**Arweinyddiaeth, newid sefydliadol a staffio**

**Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i anghenion hyfforddi staff yn sgil y model clinigol newydd, ac o ganlyniad i symud tuag at ganoli o arbenigaethau clinigol. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n disgwyl i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru sicrhau y bydd yr anghenion hyfforddi hyn yn cael eu bodloni.**

**Dylid parhau i adolygu trefniadau amserlennu staff newydd, a dylid mynd i'r afael ar frys â bylchau staffio, yn enwedig lle y caiff cyllid ychwanegol ei ddyrannu i bontio'r bylchau hynny.**

**<u>Heb ei dderbyn</u>**

Deallaf fod WAST yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddatblygu ei gweithlu yn rhan o'i rhaglen gweddnewid strategol, gyda'r bwriad o gyflawni'r safonau uchaf o ran arweinyddiaeth glinigol a datblygiad addysgol ei staff. Es i i Ganolfan Hyfforddi Genedlaethol yr Ymddiriedolaeth ym Mhrifysgol Abertawe yn ddiweddar a gadawodd y cyfleuster ac enw da'r ysgol hyfforddi am ragoriaeth argraff arnaf.

Cyfrifoldeb gweithredol WAST yw trefniadau hyfforddi ac amserlennu staff. Y sefydliad sydd i bennu lefel y sgiliau clinigol, y capasiti a'r hyfforddiant sy'n ofynnol i gyflenwi gwasanaethau diogel ac effeithiol ni waeth beth yw'r model gofal. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw ceisio sicrwydd bod hyn yn cael ei gyflawni yn hytrach na phennu sut y dylid gwneud hyn.

**Casgliad 4**

**Cludiant cleifion di-argyfwng**

**Mae'r Pwyllgor yn cydnabod Datganiad Ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog ar 14 Ionawr 2016 ac mae'n croesawu'r trefniadau comisiynu newydd ar gyfer cludiau i gleifion di-argyfwng. Mae'r Pwyllgor yn credu na ddylid caniatáu i amserlenni mewn perthynas â'r trefniadau newydd hyn lithro. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyfnod pontio o 12 mis yn cael ei fonitro'n effeithiol a dwyn byrddau iechyd, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlansys Brys ac eraill (fel awdurdodau lleol) i gyfrif am weithrediad a pherfformiad y fframwaith newydd.**

**<u>Wedi ei dderbyn</u>**

Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlansys Brys eisoes wedi dechrau ar y gwaith y mae angen ei wneud i roi'r trefniadau comisiynu newydd ar waith ar gyfer gwasanaethau cludiant cleifion di-argyfwng a bydd yn monitro cynnydd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru o ran cyflenwi'r gwasanaethau newydd.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu bwrdd prosiect i sicrhau y caiff y gwasanaethau a'r model cyflawni newydd eu cyflawni yn unol â'r graddfeydd amser a nodwyd yn yr achos busnes. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi EASC a WAST i sicrhau cyflymdra'r cyflawni a'r momentwm.

**Casgliad 5**

**Trosglwyddo a llwybrau cleifion**

**Yn ogystal â pharhau â chasgliad gwreiddiol y Pwyllgor i ostwng nifer yr oriau sy'n cael eu colli oherwydd oedi wrth drosglwyddo cleifion, mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod staff a chlinigwyr ym mhob bwrdd iechyd yn gallu defnyddio ystod gadarn a phriodol o lwybrau cleifion sy'n helpu i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty. Hefyd, mae angen gosod prosesau cadarn i sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu a'i roi ar waith ar draws Cymru.**

**Mae'r Pwyllgor eisiau gweld adroddiadau tryloyw, hygyrch a phrydlon ar gyfer Cymru ar berfformiad trosglwyddo o ambiwlansys mewn un man. Dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys hyn yn y gyfres newydd o ddangosyddion perfformiad ambiwlans.**

**<u>Wedi ei dderbyn</u>**

Mae cyflenwi gofal diogel, effeithiol ac urddasol i gleifion pan fyddant yn cyrraedd yr ysbyty mewn ambiwlans brys yn hollbwysig ar gyfer cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer y cleifion hynny, a hefyd wrth ryddhau clinigwyr ambiwlans i ymateb i gleifion eraill yn y gymuned leol.

Rwyf yn pryderu am lefel yr oedi wrth drosglwyddo cleifion a gaiff ei hadrodd gan Adrannau Brys ledled Cymru. Ni ddylid derbyn cyfnodau hir o oedi ar gyfer cleifion sydd ag angen clinigol am driniaeth, boed mewn ysbyty neu yn y gymuned, wrth i ni geisio'r canlyniadau gorau posibl i bob claf.

Adolygwyd y canllawiau cenedlaethol ar gyfer trosglwyddo mewn ysbyty yn ddiweddar gan glinigwyr, a byddant yn cael eu hailgyflwyno'n fuan i Fyrddau Iechyd Lleol trwy Gylchlythyr Iechyd Cymru gan Gyfarwyddwr Cyffredinol / Prif Weithredwr GIG Cymru. Bydd y canllawiau diwygiedig yn atgyfnerthu ein disgwyliad o ran trosglwyddo cleifion o'r criw ambiwlans i glinigwyr Adrannau Brys, a hynny yn ôl angen clinigol ac mewn modd amserol bob tro. Byddwn yn monitro cydymffurfiad â'r canllawiau hyn trwy brosesau rheoli ansawdd a chyflawniad rheolaidd.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol y cyhoeddwyd gwybodaeth gynhwysfawr am drosglwyddo cleifion yn rhan o'r gyfres gyntaf o ddangosyddion ansawdd ambiwlans ar 27 Ionawr 2016. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn unman arall yn y DU a bydd yn cael ei chyhoeddi'n chwarterol.

**Casgliad 6**

**Modelau defnydd**

**Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cyhoeddi'r adroddiad asesu ffurfiol ar ganlyniad prosiect Explorer Cwm Taf, gan gynnwys unrhyw ofynion ar gyfer adnoddau ychwanegol a chynlluniau ar gyfer ei gyflwyno ar draws Cymru.**

Mae EASC a WAST yn gyfrifol am unrhyw benderfyniad am gyhoeddi adroddiadau gweithredol mewnol, ac mae'n rhaid iddi fod felly.

**Casgliad 7**

**Galwyr cyson**

**Mae'r mater o alwyr cyson yn parhau i fod yn her i'r sector gofal heb ei drefnu cyfan. Mae'r Pwyllgor yn teimlo'n galonogol am y peilot ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i gasglu data newydd am alwyr a mynychwyr cyson. Dylid trin y gwaith hwn fel ategiad i waith mewn meysydd eraill fel llwybrau cleifion. Dylai unrhyw ganfyddiadau sy'n codi o'r peilot gael eu rhannu ar draws ardaloedd byrddau iechyd cyn gynted ag sy'n ymarferol.**

**<u>Wedi ei dderbyn</u>**

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol y caiff gwybodaeth am alwyr cyson i'r gwasanaeth ambiwlans ei chyhoeddi fel mater o drefn erbyn hyn trwy gyhoeddi'r dangosyddion ansawdd ambiwlans yn chwarterol.

Mae adnabod galwyr cyson yn helpu WAST i reoli anghenion y grŵp hwn o alwyr, y mae llawer ohonynt yn oedolion sy'n agored i niwed nad yw eu hanghenion wedi eu diwallu. Nid yw anfon ambiwlans at y cleifion hyn o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael yr help sydd ei hangen arnynt. Caiff anghenion cleifion sy'n galw'n rheolaidd eu rheoli gan dîm amlddisgyblaeth sy'n cynnwys gofal cynradd, eilaidd a rheolwyr clinigol yn y Byrddau Iechyd Lleol a WAST. Gall hyn gynnwys WAST yn cyfeirio claf at wasanaeth meddyg teulu neu at dîm arbenigol megis gwasanaeth iechyd meddwl, ac mae hyn yn digwydd erbyn hyn.

Nodaf sylwadau'r Pwyllgor ynglŷn ag ymdriniaeth y cyfryngau â phryderon parafeddyg unigol dros gyfnod y Nadolig. Nid yw ymdriniaeth y cyfryngau yn adlewyrchu barn undebau llafur y gwasanaeth ambiwlans nac ychwaith barn aelodau unigol o staff WAST yr wyf wedi cwrdd â nhw nifer o weithiau ledled Cymru. Mae cefnogaeth eang i'r model ymateb clinigol a chydnabyddir bod y gwasanaeth ambiwlans mewn sefyllfa llawer gwell o'i gymharu â'r sefyllfa yn ystod gaeaf y llynedd. Fodd bynnag, mae pwysau gwirioneddol ar wasanaethau ambiwlans ac ar system gyffredinol gofal heb ei drefnu, nad yw'n unigryw i Gymru. Cafodd y gwasanaeth ambiwlans bron i 39,000 o alwadau brys ym mis Rhagfyr, sef cyfartaledd o 1258 y dydd a 52 yr awr dros gyfnod o 24 awr.

Mae'r gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU, wedi gweld cyfnod o bwysau a galw sylweddol ers trothwy'r flwyddyn, ac mae gwybodaeth reoli yn dangos bod 20% yn fwy o bobl wedi cyrraedd Adrannau Brys na'r cyfartaledd ym mis Ionawr 2015. Mae staff yn gweithio'n galed i barhau i gyflenwi gwasanaethau diogel ac effeithiol ac rydym yn parhau i weithio'n agos â GIG Cymru i gefnogi a cheisio sicrwydd o ran cyflawni pan fo angen.

Er gwaethaf y lefel galw ddi-baid hon, ymatebwyd i ymhell dros draean o alwadau coch o fewn 4 munud yn genedlaethol ac ymatebwyd i bron i dri chwarter o alwadau coch o fewn 8 munud ym mis Rhagfyr. Yn ogystal, yr amser ymateb cyfartalog i alwadau coch oedd 5 munud a 13 eiliad. Yn syml, ni fyddai hyn yn bosibl heb sgil ac ymroddiad staff y gwasanaeth ambiwlans. Rwy'n cydnabod y gwir bwysau sydd arnynt.

Mae'r model ymateb clinigol newydd yn gam cadarnhaol ymlaen i staff ac, yn hollbwysig, i gleifion. Mae mwy i'w wneud eto, ac ni ddylai'r un ohonom gymryd yn ganiataol y cynnydd a wnaed na'r gwelliannau yr ydym ni i gyd yn dymuno eu gweld. Edrychaf ymlaen at weld y pwyllgor yn parhau i gefnogi ein gwasanaeth ambiwlans wrth wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth er mwyn gwella'r canlyniadau i gleifion fwy fyth.

Yn gywir



**Vaughan Gething AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd
Deputy Minister for Health